

# Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro

## Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person

# DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB Y PERSON

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd:** Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro - CCR Energy Ltd | **Cyfarwyddiaeth:** CCR Energy Ltd |
| **Adran:** CCR Energy | **Yn atebol i:** Bwrdd CCR Energy, Prif Weithredwr CCR |
| **Taliad cydnabyddiaeth:** £118,846 | **Oriau'r Wythnos:** Llawn Amser |
| **Hyd:** Cyfnod penodol hyd at 31 Mawrth 2027 | **Nifer y Gweithwyr sy'n Adrodd i'r Swydd:** 15-20 |
| **Amodau Arbennig:**<br>Defnyddiwr Car Achlysurol.<br>Byddai trwydded yrru lawn a dilys a defnydd o gar eich hun yn fantais.<br>Efallai y bydd angen gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd.<br><br>Mae cyfyngiadau gwleidyddol ar y swydd hon yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009). | **Lleoliad y Swydd:** Lleoliad swyddfa'r swydd hon fydd hen Orsaf Bŵer Aberddawan, ond bydd gweithio gartref/gwaith maes yn lleol yn un o ofynion y swydd. Mae gweithio'n ystwyth yn nodwedd allweddol o'r rôl hon ac yn ddisgwyliad ohoni. |



# Trosolwg:

Ym mis Mawrth 2022, caffaelodd CCR yr orsaf bŵer glo 489 erw a ddatgomisiynwyd gan y perchnogion RWE, a oedd yn cynnwys 187+ erw o dir datblygu gros, ar ôl cwblhau'r gwaith dymchwel ac adfer, gan gynnwys dwy is-orsaf grid genedlaethol, pen rheilffordd weithredol a thwmpath lludw gwerthfawr gyda'r nod o ddatblygu campws ynni gwyrdd a data. Roedd caffael y safle'n cydnabod rôl y sector cyhoeddus fel buddsoddwr tymor hir amyneddgar a cheidwad da i'r ased, a'r rhan y gall Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei chwarae wrth gyfrannu at allu ynni domestig.

Cofrestrwyd CCR Energy Limited ("CCR Energy") fel cwmni preifat cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, a ymgorfforwyd yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ar 3 Mawrth 2022, ac fe'i sefydlwyd ar ran 10 cyngor Awdurdod Lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gaffael y Safle. Roedd hyn yn cynnwys y gwaith dymchwel, adfer, uwchgynllunio ac ailddatblygu yn y pen draw i fod yn gyrchfan ynni carbon isel.

Mae'r prosiect yn un sylweddol sydd eisoes wedi denu partneriaethau cam cynnar a chydweithio arfaethedig gyda chwmnïau a sefydliadau sy'n amrywio o sefydliadau ymchwil i fuddsoddwyr tramor a chwmnïau ynni rhestredig. Bydd angen buddsoddiad sylweddol pellach at y buddsoddiad cychwynnol o tua £40M gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, a fydd yn gofyn am allu Rheolwr-Gyfarwyddwr Dros Dro sy'n fedrus wrth gydweithio, ac sy'n dangos craffter masnachol ac sy'n cydbwyso cenhadaeth gymdeithasol, cynaliadwyedd ac economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd â'r gallu i foneteiddio ased sylweddol o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol o bosibl.

# Diben y Swydd:

Bydd y rôl proffil uchel hon yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran dylanwadu ar hyder y cyhoedd, a hyder gwleidyddol a masnachol yn y prosiect trawsnewidiol hwn. Prif gyfrifoldeb y Rheolwr Gyfarwyddwr yw rhedeg busnes CCR Energy Ltd, gan arwain yr uwch dîm, adrodd i fwrdd y cyfranddalwyr a chysylltu ag ef ac arwain y gweithrediadau o ddydd i ddydd, yn unol â'r Cynllun Busnes y cytunwyd arno a'r amcanion masnachol y cytunwyd arnynt gan Gyd-bwyllgor Corfforedig SEW. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn gyfrifol am weithredu cyfeiriad strategol, sicrhau bod asedau a risgiau'n cael eu rheoli'n gywir a bod gweithgarwch yn cael ei wneud yn unol ag erthyglau cymdeithasu'r cwmni, rheolau a'r gyfraith.

Bydd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn datblygu cysylltiadau cryf â buddsoddwyr a rhagolygon buddsoddi, er mwyn creu'r amodau ar gyfer buddsoddi y bydd eu hangen yn y pen draw i gyflawni amcanion Uwchgynllun Strategol.

Bydd deiliad y swydd yn defnyddio ac yn manteisio i'r eithaf ar yr amrywiaeth o gyfleoedd ac opsiynau yn y dyfodol ar gyfer ailddatblygu'r safle'n gynhwysfawr fel Cyrchfan Ynni Carbon Isel enghreifftiol yn y DU sy'n creu cyfleoedd ar gyfer swyddi, twf a buddsoddiad cynaliadwy ac sy'n darparu enillion i'w gyfranddaliwr y gellir eu hail-fuddsoddi mewn datblygu potensial bytholwyrdd.

# Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

1. Arwain y gwaith o ddatblygu a chyflawni cynllun busnes ac uwchgynllun CCR Energy Ltd, gan arwain at dwf cynaliadwy a rhagolygon masnachol tymor hir.

2. Llywio a siapio enw da cryf ar gyfer CCR Energy, gan sicrhau ei fod yn cael ei gydnabod gan gymheiriaid, cyrff y llywodraeth a rhanddeiliaid ehangach, fel endid cymwys a phwrpasol.

3. Goruchwylio a bod yn uwch swyddog cyfrifol ar gyfer y set sylweddol o faterion cyfreithiol, rheoleiddiol ac iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig ag adfer ac ailddatblygu'n gynhwysfawr hen orsaf bŵer glo, gan sicrhau bod yr holl fesurau diogelu perthnasol ar waith a'u bod yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth.

4. Bod yn atebol i Fwrdd CCR Energy ym mhob mater polisi, strategaeth a chyflawni, gan sicrhau'r safonau llywodraethu uchaf, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr holl ystyriaethau perthnasol, gan weithio'n arbennig o agos gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Cwmni.

5. Cynghori'r Bwrdd ac aelodau SEWCJC ar ragolygon, cyfleoedd datblygu, mentrau yn y dyfodol a photensial buddsoddi.

6. Goruchwylio'r broses gyfan o ailddatblygu gynhwysfawr ar raddfa fawr, gan gynnwys dymchwel seilwaith presennol y safle yn gyfan gwbl, sy'n cael ei wneud gan gontractwyr arbenigol, gan sicrhau rheolaethau llawn, cydymffurfiad a chyfraniadau at greu gwerth cymdeithasol lleol.

7. Manteisio ar werth, potensial a gallu'r safle i ddarparu ynni domestig, gan ddatblygu'r partneriaethau, y mentrau a'r froceriaeth cytundebau sydd eu hangen i sicrhau buddsoddiad sylweddol i droi'r safle'n Hyb Ynni Gwyrdd cyfoes.

8. Meithrin perthnasoedd cryf ac adeiladol gyda set amrywiol o gyfranddalwyr a rhanddeiliaid ar ran aelodau, er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hygrededd ar gyfer y cwmni a CCR, gan arwain ar swyddi eiriolaeth - yn lleol gyda rhanddeiliaid cymunedol allweddol ac yn genedlaethol ac yn rhyngwladol gyda phartneriaid byd-eang.

9. Awdurdodi'r holl wariant cyfalaf a refeniw perthnasol, yn unol â'r cynllun busnes y cytunwyd arno a goruchwylio cyllidebau cyffredinol CCR Energy, gan ymgymryd â'r holl adroddiadau statudol perthnasol yn unol â chyfraith cwmnïau, gan gynnwys meysydd fel caffael, rheoli contractau a chyflenwyr.

10. Arwain a chynnal tîm sy'n perfformio'n dda, drwy greu amgylchedd a chyfleoedd i staff CCR Energy ragori wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

# Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

11. Datblygu achosion busnes, cynigion buddsoddi a chyllido cynlluniau busnes neilltuol i ddenu'r buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer prosiectau a rhaglenni gweithgarwch penodol, er enghraifft i fanteisio ar werth cymdeithasol, economaidd a masnachol y 18 miliwn tunnell o Ludw Tanwydd Maluriedig, ac asedau eraill sy'n gofyn am barodrwydd i fuddsoddi yn y tymor byr, er mwyn sicrhau elw ac enillion yn y tymor hwy.

12. Sicrhau bod CCR Energy Ltd yn glynu wrth arferion gorau cyfreithiol, ariannol ac Adnoddau Dynol ac yn defnyddio'r safonau uchaf mewn perthynas â gofynion rheoleiddio, gan lynu wrth yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, a sicrhau bod holl ofynion y ddeddf cwmnïau o ran ffeilio, hysbysiadau a stiwardiaeth ehangach cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau yn cael eu gweithredu.

13. Mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu amrywiaeth o bartneriaethau strategol, mentrau cydweithredol a mentrau cyhoeddus-preifat gyda chwmnïau, sefydliadau a diwydiannau uchel eu proffil sy'n arloesol eu syniadau, er mwyn meithrin hyder, momentwm a chyfleoedd ar gyfer y cwmni a'r rhanbarth.

14. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol gan Fwrdd CCR Energy a'r Cyfranddaliwr, Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru.

# Gofynion Corfforaethol:

1. Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y nodir ym Mholisi Cyfle Cyfartal CCR Energy.

2. Cymryd gofal rhesymol dros eich iechyd a'ch diogelwch eich hun a phobl eraill y gallai eich gweithredoedd neu eich esgeulustod effeithio arnynt a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch fel y bo'n briodol.

3. Cadw at Bolisi Diogelu Corfforaethol y cwmni neu bolisïau a gweithdrefnau statudol a chysylltiedig cyfatebol a rhoi gwybod am bryderon ynghylch diogelwch a lles plant neu oedolion sydd mewn perygl. I'ch cefnogi yn hyn o beth, mae'n ofynnol i chi gael hyfforddiant diogelu ar y lefel sy'n berthnasol i'r swydd hon.

4. Fel un o delerau eich cyflogaeth, efallai y bydd gofyn i chi ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a/neu amseroedd gwaith eraill a allai fod yn rhesymol ofynnol gennych, sy'n gymesur â'ch graddfa neu lefel gyffredinol eich cyfrifoldeb yn y sefydliad.

5. Er y bydd gennych brif leoliad, bydd gofyn i chi weithio o wahanol leoliadau yn unol ag anghenion y rôl.

# MANYLEB Y PERSON

**Teitl Swydd:** Rheolwr Gyfarwyddwr, CCR Energy Ltd

Rhaid i'r Rheolwr Gyfarwyddwr fod yn weithiwr proffesiynol profiadol, sy'n dangos hanes o arwain yn llwyddiannus a rheoli enw da, gyda'r sgiliau a'r profiadau penodol hyn:

**Arweinyddiaeth:** dangos arweinyddiaeth bwrpasol sy'n seiliedig ar werthoedd, a phrofiad o bennu strategaeth, cytuno ar flaenoriaethau a dirprwyo camau gweithredu

**Meddwl strategol:** y gallu i ddatblygu a gweithredu strategaeth gydag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddeinameg y farchnad.

**Hwyluso a negodi:** sgiliau dylanwadu amlwg ar lefel weithredol a lefel bwrdd, y gallu i ddylanwadu ar ddadleuon a thrafodaethau a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau effeithlon ac effeithiol.

**Eiriolaeth:** profiad llwyddiannus o brosesau gwleidyddol a rheoleiddiol a pholisi ynni yn y DU.

**Cyfathrebu:** cyfathrebwr eithriadol a darbwyllol sydd â phrofiad o fod yn unigolyn dylanwadol ac ysbrydoledig gydag urddas ac awdurdod.

**Rhwydweithio:** y gallu i rwydweithio ag amrywiaeth eang o sefydliadau a phobl, tystiolaeth o rwydwaith sefydledig o randdeiliaid allweddol a'r gallu i'w dyfu ymhellach.

**Rheoli:** gallu gweithredol a rheoli da a'r gallu i arwain pobl.



# Rhaid i'r person a benodir fodloni'r gofynion canlynol

| Maes i'w Ddangos | Gofynion Hanfodol<br><br>**RHAID** I CHI DDANGOS EICH BOD YN BODLONI'R GOFYNION HYN | Gofynion Dymunol<br><br>DOES DIM RHAID I CHI FODLONI'R GOFYNION HYN OND OS YDYCH CHI, DYWEDWCH WRTHYM | Sut mae'n cael ei asesu<br>Ffurflen Gais neu Gyfweliad neu'r Ddau |
|---|---|---|---|
| **Addysg a Hyfforddiant** | Addysg hyd at lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol, gyda thystiolaeth amlwg o ddatblygiad proffesiynol a phersonol parhaus. | Cymhwyster proffesiynol / rheoli perthnasol.<br><br>Gallu cyfathrebu yn Gymraeg, neu ymrwymiad i ddysgu. | Ffurflen Gais ac Ardystiad lle bo angen |
| **Profiad / Gwybodaeth** | Arweinydd llwyddiannus ac uchel ei barch sydd â hanes o weithio ar lefel cyfres C neu fwrdd gweithredol - naill ai yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat.<br><br>Profiad sylweddol o ymgysylltu â datblygwyr, buddsoddwyr, busnesau a phrifysgolion blaenllaw i sicrhau gwerth ariannol a gwerth lle.<br><br>Profiad sylweddol o arwain a rheoli rhaglenni cymhleth sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid ar bob cam o gylch bywyd y prosiect.<br><br>Profiad a gwybodaeth o weithio ar lefel uwch ym meysydd ynni, seilwaith neu ddatblygu.<br><br>Lefel uchel o sensitifrwydd gwleidyddol a phrofiad o ddelio ag amrywiaeth o faterion cymhleth a chyfranddalwyr sydd ag agendâu gwahanol yn aml. | Uwch arweinydd sefydledig, gyda phum mlynedd a mwy o brofiad mewn swydd ar lefel bwrdd.<br><br>Gwybodaeth am gynlluniau datblygu cynaliadwy.<br><br>Profiad o amrywiaeth o fentrau masnachol a chronfeydd a senarios buddsoddi.<br><br>Profiad amlwg o weithredu'n llwyddiannus mewn amgylchedd gyda nifer o randdeiliaid, datblygu partneriaethau effeithiol, a sicrhau newid a gwelliant parhaol.<br><br>Gallu profedig mewn perthynas â chyflawni gwerth a buddion i gyfranddalwyr. | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| **Sgiliau a Galluoedd** | Gallu meddwl a gweithredu'n strategol, gan ddatblygu atebion ymarferol, arloesol a chreadigol i reoli materion a phroblemau cymhleth. | | Ffurflen Gais a Chyfweliad |

# Rhaid i'r person a benodir fodloni'r gofynion canlynol

| Maes i'w Ddangos | Gofynion Hanfodol<br><br>**RHAID** I CHI DDANGOS EICH BOD YN BODLONI'R GOFYNION HYN | Gofynion Dymunol<br><br>DOES DIM RHAID I CHI FODLONI'R GOFYNION HYN OND OS YDYCH CHI, DYWEDWCH WRTHYM | Sut mae'n cael ei asesu<br>Ffurflen Gais neu Gyfweliad neu'r Ddau |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Galluoedd** | Gallu dangos dealltwriaeth soffistigedig o risg a datblygu diwylliant 'risg-ddoeth'.<br><br>Gallu nodi cyfleoedd i wella canlyniadau busnes drwy bartneriaeth ar bob lefel.<br><br>Sgiliau rheoli datblygedig, gyda'r gallu i adeiladu ac arwain timau.<br><br>Llythrennog yn ariannol ac yn dangos lefelau uchel o graffter masnachol, gyda dealltwriaeth soffistigedig o berfformiad masnachol a rheolaeth ariannol gan gynnwys rheoli contractau. | | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| **Priodoleddau Personol** | Dangos ymrwymiad i weledigaeth a gwerthoedd y sefydliad, gan arwain drwy esiampl a chefnogi eraill i gyflawni eu potensial.<br><br>Dangos agwedd gadarnhaol tuag at heriau newydd a pharodrwydd i addasu'n gyflym i newid.<br><br>Ymrwymiad i Bolisi Cyfle Cyfartal y sefydliad a chydnabod, gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaeth.<br><br>Dealltwriaeth gref o werthoedd ESG, ac yn arddangos hynny. | | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| **Amgylchiadau Arbennig** | Ymgymryd â dyletswyddau a/neu amserau gwaith eraill y gellid yn rhesymol ofyn i chi eu cyflawni. | Byddai trwydded yrru lawn a dilys yn fantais. | Ffurflen Gais a Chyfweliad |